

Un bach arall

DAN A LEWYS, YN EU HARDDEGAU HWYR, YN EISTEDD WRTH FWRDD MEWN BAR Â'U GWYDRAU GUINNESS YN WAG O'U BLAENAU.

Golygfa 1

Dan yn codi ei wydr, a'n hanner bygwth codi o'i sedd.

DAN: Reit ta... neith hi beint arall?

LEWYS: Ooh, mbo sdi. Di meddwl bod nôl erbyn tua 10 heno 'ma! M'isho hangover bora fory.

DAN: O tyd 'laen! Heb weld chdi ers mis Medi a ti'n gadal fi'n barod!

LEWYS: Un bach arall ta...

DAN: *There's the Lewys we all know and love!* Hannar o be gymri di?

Dan yn codi a Lewys yn gollwng chwerthiniad ar y jôc wael.

LEWYS: Person lleia ffyni dwi'n nabod sdi...

DAN: R'un peth eto?

LEWYS: Aye

Dan yn dychwelyd at y bwrdd â dau beint o Guinness mewn gwydrau Carling. Un o'r peintiau ag ewyn y Guinness yn cymryd chwarter top y gwydr, a Dan yn ei roi i Lewys.

DAN: Guinness byth yn edrych mor neis mewn gwydr felma nadi.

LEWYS: Ffoc me sbia head ar hwn... ma bron yn hannar go iawn!

DAN: Un fi'n iawn.

LEWYS: Ia achos bo chdi di rhoi'r un efo massive head i fi dyna pam!

DAN: Dwi'n prynu peint i chdi a gyd ti'n neud di cwyno! Jyst yfa fo, neu eitho'n oer!

Dan yn nodio ei ben tuag at ochr arall y stafell lle mae bachgen yn ciwio wrth y bar.

DAN: Pwy na di hwna ia?

LEWYS: Pwy?

DAN: Oo be di enw fo... arfar bod yn ysgol efo ni, few years hÿn.

LEWYS: Ginger Jesus?

DAN: 'Na chdi! Ginger Jesus... cradur. Dwi cofio gweld fo ar night out dros yr Ha'... Rich yn gweiddi Ginger Jesus arna fo o ochr arall y lôn ag odda chi'n gallu deud ar gwynab y boi bod o'n casáu fo. Oni timlo mor ddrwg, ond ti gwbo fel ma Rich... didn't give a shit. Pawb yn rhedag wedyn... ddudish i wrtha fo sa Ginger Jesus yn malu fo os safo'n gneud huna i gwynab fo.

LEWYS: Ti mel? Ti'm yn cofio Rich pan nath y boi 'na two footio fo yn 5 a side? Codi a rhei ffwc o headbutt idda fo! Reff yn rhoi red card idda fo'n syth.

Y ddau yn dechrau chwerthin yn ddi-reolaeth am ychydig eiliadau.

DAN: O ia... red card mewn 5 a side! Blydi 'el.

LEWYS: Be mae o neu wan? Heblaw headbuttio pobl!

DAN: Atho i Lerpwl i neud photography neu wbath random fela.

LEWYS: Imagine talu 9 grand a year i gymryd llun!

DAN: Ei ti'm llawar gwell... Caerdydd i neud blydi Newyddiaduriaeth! Pwy ti fel wti, Rhodri Morgan?

LEWYS: Rhodri Owen, ia?

DAN: Na, Rhodri Morgan... boi off Heno ia! Y boi 'disgwl mlan'.

LEWYS: Dio'n synnu fi dim bo chdi heb fynd i Uni sdi mêt.

DAN: Eh, pam?

LEWYS: Prif weinidog odd Rhodri Morgan... natho farw few years nôl, do.

DAN: Oo ia? Wps!

LEWYS: Fydd raid chdi ddod i aros efo fi am wîcend yn Keeerdiff rwbryd! Wbath gwahanol i neud yn lle jyst aros yn fama ndi.

DAN: Aye deffo. Ella trio dod i gema Cymru mis Mawrth?

LEWYS: Ah shit dwi di sortio tocynna' i heina'n barod efo bois uni! Unrhyw wîcend arall yn iawn ddo.

DAN: Ah no worries. Diwadd lonawr?

LEWYS: Dwi gwbod bod Rhyng-gol rwbryd amsar yna'r flwyddyn so na'i jecio a gadal chdi wbod!

DAN: Cw!l. Dwi'n rhydd whenever rili so gad fi wbod pryd sy'n gyfleus.

Ginger Jesus yn cerdded heibio'r bwrdd.

DAN: Alright, mate.

LEWYS: Boi'n siarad Cymraeg ndi?

DAN: Mbo, ydi o? Jyst yn edrych fel boi sydd ddim.

LEWYS: Ti'm yn cofio y steddfod ysgol 'na pan odda ni fel blwyddyn 8 ish? Natho ddod ar y llwyfan a gneud sgetsh Porthi'r Pum Mil. Oddo'n ffyni to be fair. Odd o probs yn meddwl sa huna'n cal gwarad

o'r nickname oedd... gyd natho rili odd gneud pawb yn yr ysgol sylwi bod o'n edrych fel Iesu. Ond yn ginger.

DAN: Sut ti'n gwbod bo'r original Iesu ddim yn ginger?

LEWYS: Good point.

DAN: Dwi mel swni'n gneud priest da.

LEWYS: Be... achos bo chdi meddwl sa Iesu gallu bod yn ginger?

DAN: Wel... a petha erill.

LEWYS: Gwon en, pa qualities erill sgen ti i fod yn priest?

DAN: Un, dwi'n foi neis. Dau, oni'n arfar mynd i Ysgol Sul. Tri, erm... tri, dwi'n open minded am be ddigwyddodd.

LEWYS: Dim holl bwynt nw ydi bo nw ddim yn open minded am be ddigwyddodd? As in, be ddigwyddodd yn y beibl ydi be ddigwyddodd go iawn? Os sanw'n open minded sa nw'm yn mynd rownd yn pregethu am hanas specific Iesu Grist wedyn nafsa?

DAN: Oh mbo Lew, dwi bach yn drunk iawn.

LEWYS: Gallu deud! Faint ges di cyn fi gyrradd?

DAN: Dau. Brynodd Gari beint i fi efyd acshyli, so tri.

LEWYS: Ffwc di Gari?

DAN: Ma'n un o'r locals... dod bob yn ail nos. Bach o alcoholic dwi mel.

LEWYS: Fatha chdi 'lly.

DAN: Ei... os ti'n dda am w bath, dio'm yn broblam nadi! Sa chdi'm yn mynd rownd yn deud bo Messi efo problam chwara pêl-droed nafsa!

LEWYS: Ti gwbo be? Dwi gallu deud bo fi'n dechra dal hi achos nath huna acshyli neud sens i fi'n fana...

Lewys a Dan yn eistedd mewn tawelwch am fymryn yn sipian eu peint, cyn i Dan dorri'r distawrwydd.

DAN: So be di'r goss o Gaerdydd 'lly? Ti'm dal yn virgin gobeithio!

LEWYS: Piss off... hogan yn freshers week. Reit del 'fyd.

DAN: Enw?

LEWYS: Rhi

DAN: Nickname terms yndach? Be ma hi'n alw chdi? Daddy? Mr Massive...

LEWYS: Ha Ha Ha. In all seriousness dwi'n eitha licio'i. Mai'n hogan neis... normal.

DAN: Normal di'r unig criteria ti'n chwilio am ia? To be fair, ma nw'n tueddu i ddeud bo chi efo, fel, emotional connection i un cynta chi dydyn.

LEWYS: Pwy di 'nw'?

DAN: Mbo, ond dwi deffo di gweld huna'n rwla!

LEWYS: Odda ni ar noson allan wsos dwytha... pawb allan gan fod hi'r nos wenar cyn pawb fynd adra am dolig, ag oni'n siarad efo'i am ages. Dwi mel ella bo hi'n licio fi 'fyd. Nathi complimentio be oni'n wisgo a deu bo fi'n hogla'n neis eniwe!

DAN: Let me guess... Dior Sauvage?

LEWYS: Aye

DAN: Ffocin lyfli ndi.

LEWYS: Aye.

Wbath exciting di digwydd yn fama ers fi adal? Heblaw Gari'n prynu peint i chdi...

DAN: Na dim llawar o'm byd sdi. Mam a Dad yn gyrru fi'n nyts ddo. Politics Live Half Twelve, BBC News am Un, BBC News am Chwech, BBC News am Ddeg. Jesus Christ.

Lewys yn torri ar ei draws

LEWYS: Ginger Jesus Christ...

Y ddau yn chwerthin, a Dan yn parhau.

DAN: Withia de, ma'r bobl sy'n cyflwyno'r newyddion jyst yn darllan union 'run sript ag odd ar y newyddion cynt. As in, gair am air union 'run peth.

LEWYS: Safio tons o bres yn byw adra ddo wyt?

DAN: Ndw i guess! Mynd yn jel yn gweld insta stories yr 'ogia gyd yn uni de. Welish i un o Llŷr... odd o mond di bod yna ers wsos, max pythefnos, a fidio ona fo'n yfad ryw beint llwyd a spaghetti hoops yn y gwaelod. Ffyni ond sgym 'run pryd!

LEWYS: Ah, crôl teulu mashw'r!

DAN: Crôl be?

LEWYS: Basically, ma'n noson lle ma'r freshers i gyd yn gorfod yfad be bynnag ma criw ail flwyddyn yn ddeutha nw yfad! Geshi berson eitha neis... peth gwaetha odd raid fi neud odd cal fy handcuffio i'r hogyn 'ma am fel hannar awr. Gorfod yfad shit ton, ond cymharu huna efo be odd pobl erill yn gorfod neud geshi hi'n eitha hawdd. Dim spaghetti hoops eniwe.

Distawrwydd rhwng y ddau am ychydig eiliadau.

Well fi fynd wan mêt. Cyn 'ddi ddechra pismo'i lawr.

DAN: One for the road? Peint pum munud a wedyn fyddi di dal adra cyn 10!

LEWYS: Na well fi fynd Dan!

DAN: Am adal fi yma ben fy hun?

LEWYS: Ti'm ar ben dy hun na... ma Gari yma!

Dan yn chwerthin, a Lewys yn codi o'i sedd ac estyn am ei gôt.

DAN: Diolch am heno met.

LEWYS: Dolig Llawen lad! Welai di rwbryd yn y flwyddyn newydd ia? Keep in touch!

GOLYGFA'N DOD I BEN.

Golygfa 2

Lewys, ar ben ei hun, yn eistedd wrth yr un bwrdd â pheint o Guinness o'i flaen. Siarad yn uniongyrchol i'r gynulleidfa y tro hwn.

LEWYS: A dyna ni. Da chi isio gwbod pam eshi adra'n fuan y noson yna? Odd gena i Lasagna odd angen ei fyta 'run dwrnod, ag oni'sho cyrradd adra i gal fo cyn gwely. Neshi'i adal o am ffocin Lasagna.

Nath 'i fam o ffonio deuddydd wedyn... sgrechian crio ar y ffôn. Welish i enw fo'n dod fyny a meddwl fod o'n eitha weird achos sa Dan byth yn ffonio neb. 'Pam ffonio pan gen i fysidd i decstio' sa fo'n ddeud.

Oddi isio gwbod am be odda ni'n siarad. Yn... chwilio am atebion. Ddudish i'r gwir... siarad am bob dim a ffyc all yr un pryd.

'Roedd o'n iawn echdoe, gaddo! Gaddo!' medda fi'n dal y dagra nôl.

Distawrwydd am fymryn.

Mai'n flwyddyn bellach. Y sgwrs yn dal i fynd rownd a rownd a rownd yn 'mhen i o hyd. Trïo llenwi'r bylcha rhwng y niwl. Y jôcs gwael, ei jôcs o, yn ddoniolach rŵan, rywsut.

Neshi'm ei weld o, tu ôl y chwerthin, neshi'm ei weld o. Neshi dy adal di lawr.

A rŵan... rŵan dwi'n ysu am y cyfla i glwad y 'one for the road?' unwaith eto. Dim ond unwaith, i fi aros, i glwad be odd yn dy boeni'n y nos.

Llais tu ôl y bar yn galw 'Last Orders'.

DIWEDD

Osian Wynn Davies